# 5 key principles for bait collectors

**1.**
Only take what you need

**2.**
Leave as you find

**3.**
Be a shoreline guardian

**4.**
Be legally aware

**5.**
Be smart, stay safe

## Choose responsibly sourced bait

Opt for farmed ragworm or black lug collected with a bait pump. Farmed baits are economical and relieve pressure on your local wild bait stocks and environment.

*


**


* Farmed ragworm harvesting equipment, Image © Dragon Baits Ltd

** Bait pump used for black lug

Mae’r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Secure our future bait

Code of Conduct for bait collectors in Wales

In partnership with

angling cymru

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

# 5 key principles

## 1. Only take what you need

**Sustainable collection**
Don't take more bait than you need.

**Protect the breeding stock**
Don't take crabs with eggs, or under any minimum size (velvets, less than 65mm carapace length; edibles less than 140mm).

## 2. Leave as you find

Always leave the area as you find it. This improves the chances that there will be plenty of bait for your next visit. Don't forget to fill in any holes or trenches you have dug.
.

**Bad practice**



**Better practice**



Restore rocks as found and replace boulders the right way up, with seaweed on the top. If you trap seaweed under rocks, it rots and spoils the habitat for crabs.

**Bad practice**



**Good practice**





## 3. Be a shoreline guardian

Your actions can make a big difference in helping our shores. Bait collectors can help by:

**Check, Clean, Dry**
Check your gear for mud and marine life. Clean and dry thoroughly before using again. Harmful species can survive up to two weeks if damp.
It's best practice to dispose of natural packing and storage materials away from the shore.


CHECK CLEAN DRY

**Preserve sensitive habitats and fish nursery areas**
Protect sensitive habitats and fish nursery areas by not damaging fragile ecosystems, including seagrass, saltmarsh, muddy gravels and honeycomb tubeworm reef.

**Considerate trapping**
Set crab traps thoughtfully, and remember to retrieve them. Anything left behind may be mistaken for fly-tipping.

**Beach cleaning as you go**
Try to take any litter you find home with you, along with your own litter.

**Backing the birds**
Avoid disturbing feeding, resting or nesting birds.



## 4. Be legally aware

Research and follow the rules and restrictions that apply.

**Consider the landowner**
Get permission when required. This is necessary if you are collecting commercially, and access restrictions can apply to anybody.


## 5. Be smart, stay safe

Make it safe for all: Don't leave hazards such as holes or crab traps with sharp edges.

Don't dig near structures and moorings: Let's make sure everyone can enjoy the beach by being considerate and avoiding digging near their property.

**Safety is paramount:**
- Check the tide. If you don't know, don't go. If unsure, go before low.
- Check the weather. Be aware of disorientation in fog and leave the beach in lightning.
- Carry a whistle, a compass and a mobile phone in a dry bag or box.
- Make sure somebody knows where you are and your return time.
- Beware of soft mud and gullies. Even sandflats with gentle undulations can quickly fill behind you.

**Sensitive habitats and fish nursery areas to avoid.**



Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Diogelu abwyd at y dyfodol

Cod Ymddygiad ar gyfer casglwyr abwyd yng Nghymru

## 5 egwyddor allweddol ar gyfer casglwyr abwyd

**1.**
Cymerwch yr hyn sydd ei angen arnoch yn unig

**2.**
Gadewch yr ardal fel yr oedd

**3.**
Gwarchodwch y draethlin

**4.**
Byddwch yn ymwybodol o'r gyfraith

**5.**
Byddwch yn gall, cadwch yn ddiogel

## Dewiswch abwyd o ffynonellau cyfrifol

Dewiswch abwyd melys wedi eu ffermio neu abwyd duon wedi eu casglu gyda phwmp. Mae abwyd fferm yn economaidd ac yn lleihau'r pwysau ar eich stociau abwyd gwyllt lleol a'r amgylchedd.

*


**


* Offer cynaeafu abwyd melys fferm, delwedd © Dragon Baits Ltd

** Pwmp abwyd a ddefnyddir ar gyfer abwyd duon

This document is available in English

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Mewn partneriaeth â

angling cymru

Prifysgol Bangor University

# 5 egwyddor allweddol

## 1. Cymerwch yr hyn sydd ei angen arnoch yn unig

**Casglu cynaliadwy**
Peidiwch â chymryd mwy o abwyd nag sydd ei angen arnoch.

**Gwarchodwch y stoc bridio**
Peidiwch â mynd â chrancod ag wyau, neu o dan unrhyw isafswm maint (crancod llygatgoch, hyd cragen o lai na 65mm; crancod cochion llai na 140mm).

## 2. Gadewch yr ardal fel yr oedd

Gadewch yr ardal fel yr oedd pan gyrhaeddoch chi. Mae hyn yn gwella'r siawns y bydd digon o abwyd ar gyfer eich ymweliad nesaf. Peidiwch ag anghofio llenwi unrhyw dyllau neu ffosydd rydych chi wedi'u cloddio.

. **Arfer gwael** **Arfer gwell**





Rhowch greigiau yn ôl lle roedden nhw a gosodwch y clogfeini y ffordd iawn i fyny, gyda'r gwymon ar y brig. Os bydd gwymon yn cael ei ddal o dan greigiau, bydd yn pydru ac yn difetha'r cynefin i grancod.

**Arfer gwael** **Arfer da**





## 3. Gwarchodwch y draethlin

Gall eich gweithredoedd wneud gwahaniaeth mawr wrth helpu ein glannau. Gall casglwyr abwyd helpu drwy:

**Edrych, Golchi, Sychu**

Edrych
Golchi
Sychu


Edrychwch ar eich offer am fwd a bywyd morol. Golchwch a sychwch yn drylwyr cyn ei ddefnyddio eto. Gall rhywogaethau niweidiol oroesi hyd at bythefnos os yw'r offer yn llaith. Yr arfer gorau yw cael gwared ar ddeunyddiau pacio a storio naturiol i ffwrdd o'r lan.

**Diogelu cynefinoedd sensitif ac ardaloedd sy'n feithrinfeydd pysgod**
Amddiffyn cynefinoedd sensitif ac ardaloedd sy'n feithrinfeydd pysgod drwy beidio â difrodi ecosystemau bregus, gan gynnwys morwellt, morfa heli, graean mwdlyd a riff llyngyren ddiliau.

**Trapio ystyriol**
Byddwch yn feddylgar wrth osod trapiau crancod, a chofiwch fynd i'w nôl nhw. Gellid camgymryd fod unrhyw beth a adawyd ar ôl wedi'i dipio'n anghyfreithlon.

**Glanhau'r traeth wrth i chi fynd**
Ceisiwch fynd ag unrhyw sbwriel adref gyda chi, ynghyd â'ch sbwriel eich hun.

**Cefnogi'r adar**
Peidiwch â tharfu ar adar sy'n bwydo, gorffwys neu nythu.



## 4. Byddwch yn ymwybodol o'r gyfraith

Ymchwiliwch a dilynwch y rheolau a'r cyfyngiadau sy'n berthnasol.

**Ystyriwch y tirfeddiannwr**
Trefnwch ganiatâd pan fo angen. Mae hyn yn angenrheidiol os ydych yn casglu'n fasnachol, a gall cyfyngiadau mynediad fod yn berthnasol i unrhyw un.

## 5. Byddwch yn gall, cadwch yn ddiogel

Gwnewch y lle'n ddiogel i bawb: Peidiwch â gadael peryglon fel tyllau neu drapiau crancod ag ymylon miniog.
Peidiwch â chloddio yn agos at strwythurau ac angorfeydd: Gadewch i ni sicrhau bod pawb yn gallu mwynhau'r traeth trwy fod yn ystyriol ac osgoi tyllu ger eu heiddo.

**Mae diogelwch yn hollbwysig:**

- Edrychwch ar amseroedd y llanw. Os nad ydych chi'n gwybod, peidiwch â mynd. Os ydych yn ansicr, ewch cyn y llanw isel.
- Gwiriwch y tywydd. Byddwch yn ymwybodol o fynd ar goll mewn niwl a gadewch y traeth os oes mellt.
- Cariwch chwiban, cwmpawd a ffôn symudol mewn bag neu focs sych.
- Gwnewch yn siŵr bod rhywun yn gwybod ble rydych chi a'ch amser dychwelyd.
- Gwyliwch rhag mwd meddal a rhigolau. Gall hyd yn oed gwastadeddau tywod gyda phantiau ysgafn lenwi y tu ôl i chi yn gyflym.

### Cynefinoedd sensitif ac ardaloedd sy'n feithrinfeydd pysgod y dylid eu hosgoi

